



Llais y Llan

RHIFYN 2 - TYMOR YR HYDREF 2011



Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd
Dda oddi
wrth holl
staff Ysgol
O M
Edwards!



Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair Nadolig brysur iawn yn yr Ysgol. Dechreuwyd y noson drwy agor y murlun serameg bendigedig gwblhawyd gan y plant gyda'r artist Neil Dalrymple. Yna cafodd pawb gyfle i wario o gwmpas y stondiau yn yr Ysgol. Codwyd £840 o elw i Gymdeithas Cyfeillion yr Ysgol! Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth draw i gefnogi!



Neil Dalrymple, Dilys Ellis-Jones a Gareth

Plant Mewn Angen

Cawsom ddiwrnod arbennig i godi arian tuag at Blant Mewn Angen. Casglwyd £70 i'r gronfa drwy dalu am ddod i'r ysgol yn eu dillad eu hunain. Daeth pawb â thedi i'r ysgol a chawsom gasgliad gwych o dedis yma a chwarae nifer o gemau â nhw. Diolch eto i bawb am gefnogi!



Nofio'r Urdd

Da iawn Elliw ac Erin am eu llwyddiant yn y gystadleuaeth nofio yr Urdd. Llwyddodd Elliw i ddod yn ail agos iawn, ac fe wnaeth Erin ennill ei dwy ras! Bydd Erin yn cynrychioli'r rhanbarth yng Nghaerdydd. Diolch i chi'ch dwy am gymryd rhan, a phob lwc i ti Erin!



Gwasanaeth Nadolig

Cawsom groeso mawr yn yr Ysgoldy gan Carwyn Siddall a chyflwynodd wasanaeth Nadolig inni. Braf oedd i bawb gael gweld yr Ysgoldy ar ei newydd wedd. Yma mae'r Awr Fawr yn cyfarfod bob bore Sul am 10:00am. Mae croeso cynnes i bawb.



Twm Tishian yn ymweld



Daeth Twm Tishian a Lisa i'r ysgol i ffilmio ar gyfer rhaglen Gelf ar 'Cyw'. Cafodd pawb o ddisgyblion blwyddyn Derbyn, 1 a 2 gyfle i gydweithio â Twm a Lisa. Bydd y 4 rhaglen yn cael eu darlledu yn y flwyddyn newydd.

Y tîm pêl-rwyd yn llwyddo!

Llongyfgarchiadau i dim pêl-rwyd y merched yr Ysgol ar eu llwyddiant yng Nghystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar. Enillodd y merched bob gêm hyd yr un olaf, a dod yn ail agos iawn i dîm Ysgol Bro Tegid. Byddant yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd Ranbarthol ym Mlaenau Ffestinog yn mis Ionawr. Diolch i Sara o Ysgol y Parc am ddod atom!

Pob lwc i chi ferched!



Goliau Newydd!



Diolch yn fawr iawn i Bwyllgor y Carnifal am eu cyfraniad hael o £400 tuag at brynu offer pêl-droed newydd i'r ysgol. Diolch hefyd i blant y Cyngor Ysgol am eu help i godi arian i brynu'r goliau!

Ymweliad Esyllt Jones

Bu plant blynyddoedd Derbyn 1 a 2 yn dysgu am fywyd plant yn Botswana. Daeth Esyllt Jones yma i ateb rhai o gwestiynau y plant am Affrica. Dyma rai o'r plant hefyd yn cael cyfle i chwarae a dysgu am fywyd yn Affrica.



Sul yr Urdd



Dyma aelodau yr Urdd blynyddoedd 3 i 6 fu yn canu yng Ngwasanaeth Sul yr Urdd. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Crist y Bala eleni. Diolch yn fawr iawn i bawb ddaeth i gefnogi!

Pantomeim Ysgol y Berwyn

Daeth disgyblion y chweched dosbarth o Ysgol y Berwyn yma i wneud Pantomeim arbennig ar ein cyfer. Cafwyd gwledd o ganu a pherfformio, ac roedd Sion Corn hyd yn oed wedi dod ag anrhegion i bawb! Diolch yn fawr iawb i bawb o Ysgol y Berwyn am eu gwaith caled, roedd pawb wedi mwynhau yn fawr!



Ymweliad Iwan Parri



Fel rhan o'n gwaith ar y thema "Ffermio a Bwyd", deuth y milfeddyg lleol, Iwan Parri, i siarad gyda ni am ei waith. Cafodd y plant hefyd gyfle i holi Mr Parri am ei waith, a chael gweld yr holl offer mae Mr Parri'n ei ddefnyddio. Cafwyd prynhawn diddorol tu hwnt! Diolch yn fawr!

Fflur yn fuddugol!

Llongyfarchiadau mawr i Fflur o flwyddyn 6 am ddod yn fuddugol trwy **Gymru gyfan** yng nghystadleuaeth barddoni'r NFU! Roedd rhaid i Fflur greu cerdd am ffermio, ac fe wnaeth holl ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yr ysgol gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Gweler Fflur gyda swyddogion NFU a Huw Roberts, Y Gyrn, yn derbyn gwobr o dractorau Britains gwerth dros £100!

